



# Trysorau cenedlaethol Cymru

Mae sylwebyddion a rhanddeiliaid blaenllaw yn dewis eu ffefrynnau personol o blith yr amrywiaeth eang o adeiladau gwych yng Nghymru – ac yn egluro pam eu bod yn golygu cymaint iddyn nhw.



## Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Sir Benfro, fel y'i hadferwyd gan Scott

**Griff Rhys Jones**

Pe gallwn gael un yn unig, byddwn yn dewis Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn Sir Benfro gyda'i charreg borffor o'i chwarel ei hun, olion llys yr Esgob, y llawr ar oleddf organig a'r pileri gogwyddol. Yn ogystal â bod â hanes sy'n mynd yn ôl i'r ddeuddegfed ganrif, mae Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn enghraifft o un o'r gweithiau adfer Fictoraidd mwyaf gwych, sensitif a chynnil – y tu mewn a'r tu allan – o dan yr enwog Syr George Gilbert Scott, a oedd wedi gwneud brasluniau ohoni yn ystod taith yng nghanol y 1850au cyn gweithio ar ei waith adfer yn y 1860au a'r 70au. Mae'r hyn a luniodd yn lle pen gorllewinol John Nash a oedd yn dirywio, yn gofeb i'r Esgob Thirlwall ac yn ail-gread cofiadwy ac ysgolheigaidd o'r gwreiddiol, yn seiliedig ar hen lun a ddarganfu Scott yng Nghymdeithas yr Hynafiaethau.

Mae Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn un o ryfeddodau Cymreig y byd, sy'n ein hatgoffa bod Sir Benfro ar un adeg yn ganolbwynt gwareiddiad. Roedd gan Scott ddiddordeb mawr yn ei hanes ac roedd yn benderfynol o ymateb i'w harwyddocâd a'i gwneud yn gadarn ar gyfer y ganrif nesaf, gyda'i fab a'i ŵyr yn parhau â'i waith. Dyma un o'r llefydd yng Nghymru rydw i bob amser yn ei fwynhau a byddwn yn argymell pawb i dalu ymweliad.

**Griff Rhys Jones** yw Llywydd y Gymdeithas Fictoraidd.



## Castell Coch

**Syr Simon Jenkins**

Canoloesol, rhamantus, cosmopolitan yn diferu o gyfoeth, beth allai fod yn llai Cymreig nag ateb Morgannwg i Neuschwanstein Ludwig o Bavaria? Mae Castell Coch yn sefyll ar ei lwyfan coediog trwchus dros Afon Taf, encil haf a oedd prin yn cael ei ddefnyddio gan ei berchennog, Ardalydd Bute, o Gastell Caerdydd, sydd yr un mor ddramatig. Cafodd ei adeiladu gan y dyn gwyllt William Burges yn 1875, ac roedd yn cyflawni ei ffantasïau canoloesol ar gyfer yr unig gleient a oedd yn ddigon cyfoethog i borthi ei fympwyon.

Mae'n hawdd diystyru Castell Coch fel set Disneyaidd ar gyfer un o ffilmiau Douglas Fairbanks. Ond roedd yn seiliedig ar ymchwil fanwl i gastell blaenorol ar y safle, y cadwyd ei gwrt, ac ar waith y canoloeswr o Ffrainc, Viollet-le-Duc. Mae'r pedair prif ystafell fewnol yn gampweithiau addurnol. Canolbwynt y neuadd wledda yw lle tân syfrdanol sydd wedi'i neilltuo i ddarlunio bywyd Sant Lucius, brenin Cristnogol cyntaf Prydain, yn ôl y sôn. Mae'r parlwr yn llawn natur a lliw. Pili-palod yw'r crocedau, mae'r sbandreli yn llawn adar fel pe baent yn agored i'r awyr y tu hwnt, ac mae'r waliau wedi'u darlunio gyda chwedlau Aesop. Mae gan ystafell wely'r Arglwyddes Bute nenfwd Mwraidd mewn aur a gwyrdd, gyda blodau ac anifeiliaid, gweithgareddau a dynoliaeth ym mhobman. Yma, mae'r canoloesol yn ymdoddi i'r arddull Celf a Chrefft. Yn yr 20fed ganrif, cafodd Burges ei ddiystyru a'i alw'n addurnwr goddefgar. Gallwn weld sut y daeth â bywiogrwydd i bensaernïaeth sydd wedi bod yn absennol ers hynny.

**Syr Simon Jenkins** yw un o Is-lywyddion y Gymdeithas Fictoraidd ac awdur *Wales: Churches, Houses, Castles*, 2008.



Castell Coch, ger Caerdydd, wedi'i ailfodelu gan Burges (© Alamy).
**Chwith:** Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Sir Benfro, fel y'i hadferwyd gan Scott (© Laurence John).



## Neuadd Sir Forgannwg

**Dr Elaine Davey**

Mae Parc Cathays, Caerdydd, yn enwog am ei adeiladau cyhoeddus mawreddog sy'n ffurfio canolfan ddinesig Caerdydd. Fy ffefryn personol i yw hen Neuadd Sir Forgannwg, sydd bellach yn rhan o'r Brifysgol. Enillodd gystadleuaeth am y tro cyntaf i'r Vincent Harris ifanc, wedi'i rhannu â T.A. Moodie. Dywedir bod ei phrif ffasâd wedi'i ysbrydoli gan Amgueddfa Fitzwilliam, Caergrawnt gan Basevi, gyda'i phortico o golofnau Corinthaidd cypledig, a llawr atig uwchben, gyda phafiliynau Clasurol ar y ddwy ochr.

Mae arddull bensaernïol Beaux-Arts Clasurol yn cael ei gydbwyso gan leoliad arloesol grwpiau cerfluniol hudolus Albert Hodge, sef Minerva a Neptune, sy'n cynrychioli Mwyngloddio a Mordwyo, ar lefel y podiwm. Mae'r tu mewn heb ei newid i raddau helaeth, wedi'i wella gan ddodrefn a ddyluniwyd fel rhan o'r cynllun cyffredinol. Mae'r cefnlun yn gwbl wahanol, mewn idiom sy'n atgoffa rhywun o balazzo Eidalaidd, yn wynebu tiroedd Castell Caerdydd.

Mae'r holl elfennau hyn yn cael eu trin yn fedrus ac yn ddyfeisgar iawn. Yr athro pensaernïaeth cyntaf ym Mhrifysgol Cymru, Dewi–Prys Thomas a ysgrifennodd am y tro cyntaf iddo weld, yn yr 1930au: 'gofod trefol enfawr yn ymestyn allan o'm blaen tuag at adeiladau â thoeau crwm yn y pellter. Ni ellid gwella arnynt gan Erddi'r Tuileries, a [byddent] yn codi cywilydd ar hyd yn oed y Champs-Élysées.'

**Dr Elaine Davey** yw cadeirydd Cymdeithas Fictoraidd Cymru.



## Plas Bronwydd, Ceredigion

**Denise Lewis Poulton**

Yn anffodus, nid yw fy hoff adeilad Fictoraidd yng Nghymru yn un y gellir ymweld ag ef heddiw am ei fod wedi cael ei ddymchwel, sy'n ein hatgoffa pa mor fregus y gall ein treftadaeth fod.

Fodd bynnag, mae'n atgof sy'n ddwfn yn fy nghalon ac mae cysylltiadau personol iawn iddo. Roedd fy nhad-cu a'm mam-gu o ochr fy nhad yn ffermio Penrallt-y-Gigfran, tyddyn bychan a oedd yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg, a oedd yn edrych dros Bronwydd, plasty y cyfeiriwyd ato gan Thomas Lloyd yn ei lyfr yn 1986 The Lost Houses of Wales fel un o blastai enwocaf boneddigion glannau Teifi. Roedd y teulu Lloyd wedi bod yn berchnogion ar y safle ers 1562, ac yn 1853, cychwynnodd Thomas Davies Lloyd, a swynwyd gan yr Adfywiad Gothig a than ddylanwad John Ruskin, cyd-fyfyriwr iddo yn Rhydychen, ar brosiect adeiladu i greu'r hyn a ddisgrifiwyd fel 'Camlod Sir Aberteifi'. Dyluniwyd y ffantasi murfylchog hwn gan Richard Kyrke Penson, a chymerodd flynyddoedd i'w adeiladu, gan gostio llawer mwy na'r arian a oedd ar gael.

Dim ond am 80 mlynedd y safodd Bronwydd, adeilad rhamantaidd ac anghydnaws ynghanol tiroedd amaethyddol cefn gwlad Ceredigion. Ar hap, roedd cefnder fy mam, Dr Leslie Baker-Jones, hefyd yn gysylltiedig â Bronwydd ac ysgrifennodd ddau lyfr yn cofnodi atgofion ei blentyndod am dai gwledig coll yr ardal ac yn llawn straeon amdanynt. Roedd y ffug-gastell neo-ganoloesol hwn, gyda'i parterres a'i erddi godidog, ei glochdai, tyredau a thyrau, ei fandiau pres a'i ffeiriau haf yn ganolbwynt



Hen Neuadd Sir Morgannwg gan Vincent Harris (© Robin Forster).
**Isod:** Bronwydd golledig, Ceredigion (© Amgueddfa Ryfel yr Ymerodraeth).
**Isod ar y dde:** Castell Rhamantus Gwrych, Conwy (© Ymddiriedolaeth Castell Gwrych).





pwysig i bentrefi a chymunedau Dyffryn Teifi. Adeiladodd y teulu Lloyd eglwys St Cynllo hefyd, eglwys ystâd yn yr arddull Fictoraidd Uchel, a ddyluniwyd gan John Middleton o Cheltenham.

Fel plentyn yn ymweld â fy nhad-cu a'm mam-gu, gallaf gofio edrych allan drwy'r coed ar adfeilion plasty Bronwydd, dan orchudd o iddew. Cafodd yr adfeilion eu dymchwel yn y 1970au, ond hyd yn oed heddiw, rwy'n dal i yrru heibio'r gatiau mawreddog, unig olion y tŷ gwreiddiol, a'r bywyd ar fferm fy nhad-cu a mam-gu – ac rwy'n dal i'w cysylltu â sŵn fy mam-gu yn chwarae'r piano a chanu emynau, a'r olygfa ar draws y dyffryn at grair coll o'r oes a fu.

**Denise Poulton Lewis** Ymddiriedolwr a Dirprwy Cadeirydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a Chadeirydd Pwyllgor Cymru.



## Castell Gwrych

### Dr Mark Baker

Rwy'n dewis Castell Gwrych, tŷ ffantasi Gothig, rhestredig Gradd I, sydd wedi bod yn dadfeilio ers blynyddoedd ond mae bellach ar fin cael ei adfer. Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wedi dyrannu grant o £2.2 miliwn i ail-osod to a lloriau'r castell, gyda'r gwaith i ddechrau ym mis Ionawr 2025. Mae gan Gwrych amlinelliad anhygoel, gyda'i amrywiaeth o borthdai, tyrau gwledda, llwybrau cerdded wedi'u dylunio, wal parc, a hanes yn dyddio'n ôl fil o flynyddoedd fel ffynhonnell hunaniaeth gymunedol, cyflogaeth leol, a noddfa mewn cyfnodau o wrthdaro.

Roedd yn ganolbwynt i dwristiaeth yng Nghymru hyd nes iddo gael ei esgeuluso yn y 1990au, ond heddiw, mae Castell Gwrych yn atyniad i ymwelwyr unwaith eto, ac yn lleoliad ffilmio poblogaidd, sy'n eiddo i'r elusen dan arweiniad gwirfoddolwyr ers 2018. Mae ei adferiad a'i rolau amrywiol yn tanlinellu ei arwyddocâd fel safle diwylliannol o bwys arbennig. Rydw i wedi ei adnabod ers fy mhlentyndod ac, ar ôl gweld ei ddadfeiliad a gweld pa mor gyflym y gall adeilad gwych ddirywio, roeddwn yn un o sylfaenwyr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Gwrych yn 1997.

**Dr Mark Baker** yw sylfaenydd Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Gwrych.

stdavidscathedral.org.uk
castellcoch.com
visitcardiff.com/highlights/cathays-park
gwrychcastle.co.uk